# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Agenda (233)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2006**
**Amser: 2.00pm**


Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Cwestiwn Brys: Peter Black (South Wales West): Will the Minister make a statement on the future of the Visteon plant in Swansea.

Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.
Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wah?
Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006

Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T? Esempt) (Cymru) 2006

Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

Eitem 7 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i Brif Weinidog Cymru

Eitem 8 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

Eitem 9 - Dadl ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Tamsin Dunwoody AC


.............................

## Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

............................

**Cwestiwn Brys: Peter Black (South Wales West): Will the Minister make a statement on the future of the Visteon plant in Swansea.**

............................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

............................

**Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.**
**Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NNDM3303 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ?heol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Tenantiaethau Rhagarweiniol (Adolygu Penderfyniadau i Estyn Cyfnod Treialu) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd

at Aelodau’r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad ?wyd (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad ?wyd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad ?wyd (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.............................

## Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wah?
## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006

**NNDM3304 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006.

**NNDM3305 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..............................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T?Esempt) (Cymru) 2006

**NNDM3306 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T?Esempt) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006.

**NNDM3307 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T?Esempt) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T?r Esempt) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd T?Esempt) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..............................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

**NNDM3308 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006

**NNDM3309 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..............................

## Eitem 7 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NNDM3310 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn a than Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ac eithrio'r rhai na ellir, yn ? gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau r? wyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y c? eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. **Dogfennau Ategol**
Gellir canfod copi o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060016_en.pdf

..............................

## Eitem 8 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

**NNDM3311 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu'n gryf bod diffygion yn adroddiad Comisiwn Iechyd Cymru ar wasanaethau niwrolawfeddygol i oedolion yn ne Cymru. Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Yn unol ? canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal ar wah?
(1+)
(2+4)
(3)Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn credu y dylid gwrthod cynigion Comisiwn Iechyd Cymru ar wasanaethau niwrolawfeddygol yn Ne Cymru; a

2. Yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd i gadw'r adran niwrolawfeddygaeth yn Abertawe er mwyn cynnal gwasanaeth digonol i Gymru gyfan yn y tymor hir.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod, wrth ystyried argymhellion adroddiad Comisiwn Iechyd Cymru ar wasanaethau niwrolawfeddygol i oedolion yn y De, y dylid seilio unrhyw benderfyniad ar yr hyn sydd orau i gleifion, ac y dylai’r penderfyniad ynghylch safle'r uned niwrolawfeddygol gael ei wneud ar sail teilyngdod clinigol heb unrhyw ymyriadau gwleidyddol.

2. Yn nodi bod angen i Gomisiwn Iechyd Cymru ystyried yr holl dystiolaeth newydd cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth ar ?quot;bod" a rhoi yn ei le:

penderfyniad y Gweinidog i ofyn i Gomisiwn Iechyd Cymru wneud mwy o waith ar y ffactorau sy’n codi o’r newydd yng nghyswllt niwrolawfeddygaeth i oedolion yn dangos ymrwymiad i benderfynu ar sail cyngor clinigol gwrthrychol ac annibynnol a pharodrwydd i ymateb i safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru o ran lleihau amserau cludo cleifion ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddarparu buddsoddiad digonol.

**Dogfennau Ategol**
Gellir gweld copi o Adroddiad y Comisiwn drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/40382121/HCW_Impact_Assessment_FINAL1.pdf?lang=en

............................

## Eitem 9 - Dadl ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Tamsin Dunwoody AC

**NNDM3280 Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ?heol Sefydlog 31.2, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth a fydd:

Yn darparu ar gyfer arolygu Practisys Deintyddol Preifat yng Nghymru a chyflwyno systemau ar gyfer adrodd ar unrhyw ganfyddiadau.

Isod ceir datganiad o'r pwerau cyfreithiol a fyddai'n caniat?i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud, ynghyd ag amlinelliad o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill, a hynny er mwyn helaethu ar y cynnig:

**Datganiad o Bwerau Cyfreithiol:**

Mae gan y Cynulliad bwer i wneud rheoliadau dan adran 42 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n gallu darparu ar gyfer cymhwyso Rhan 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal i bersonau penodedig. Mae Rhan 2 yn ymwneud ?hofrestru ac arolygu rhai sefydliadau ac asiantaethau penodol gan y Cynulliad. Mae Adran 42 yn caniat?i'r drefn gael ei hestyn i bersonau sy'n darparu gwasanaethau sy'n debyg i wasanaethau y gellir, neu y mae'n rhaid, eu darparu gan Awdurdodau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaethau GIG neu Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol.

**Goblygiadau o ran Adnoddau:**

Gan y byddai'r arolygiadau'n cael eu cynnwys o fewn rhaglen gyffredinol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, rhagwelir mai bach iawn fydd y goblygiadau o ran adnoddau.

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.30pm**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 15 Tachwedd 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**